

**Cofnod Cyfarfod yr Awdurdod**

**Cyfarfod Rhif 374a**

**Parhad o gyfarfod Rhif 374, AWD(14)39**

(a gynhaliwyd yng Nghanolfan S4C, Caerdydd 13.03.14)

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

**1. Sylwadau agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

**2. Datganiad o ddiddordeb**

[Cyfeiriwyd at y datganiadau diddordeb isod gan yr Aelodau.]

Carol Bell	Cymrawd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Aelod o Gyngor Prifysgol Caerdydd, Cymrawd Prifysgol Abertawe.
John Davies	Yn gyfarwydd gyda nifer o brif swyddogion y ddau gais.
Rheon Tomos	Dim materion i'w nodi.
Elan Closs Stephens	Cymrawd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Arholwr allanol, wedi dilysu graddau, ac wedi chwarae rhan flaenllaw o ran sefydlu adran ddrama'r Brifysgol. Aelod o Ymddiriedolaeth y BBC.
Aled Eirug	Dim materion i'w nodi.
Huw Jones	Cymrawd Prifysgol Bangor, Yn byw yn nalgyrch Caernarfon, Aelod o fwrdd ymgynghorol Canolfan Pontio.

Marian Wyn Jones    Aelod o Gyngor Prifysgol Bangor,  
Yn gyfarwydd gyda nifer o unigolion sy'n gysylltiedig  
gyda'r ddau gais,  
Yn byw yng Nghaernarfon.

Glenda Jones        Yn hanu'n wreiddiol o Sir Gaerfyrddin,  
Wedi bod yn arholwr allanol yng Ngholeg y Drindod.

### **3. Cyflwyniad gan y Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd gyflwyniad byr i'r cyfarfod.

[**Crynodeb:** Eglurodd yr amserlen gan grynhoi'r broses hyd yma. Yn dilyn cyflwyniadau gan Wynedd a Chaerfyrddin cafwyd trafodaethau ymhlith yr Awdurdod ac, yn ogystal ag ystyried cynigion y ddwy ardal, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i aros yng Nghaerdydd.]

Nodwyd y byddai unrhyw benderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn amodol ar gytundeb.

### **4. Cydleoli gyda BBC Cymru**

[**Crynodeb:** Yn dilyn trafodaeth cyflwynwyd argymhelliad diwygiedig i'r Awdurdod ynghylch cydleoli nifer o weithgareddau gyda BBC Cymru mewn canolfan newydd.]

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cynnig yn unfrydol.

### **5. Ystyriaeth bellach i Adleoli Pencadlys S4C**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaethau pellach am Adleoli Pencadlys S4C.]

Cyflwynwyd argymhelliad diwygiedig i'r Awdurdod ar gyfer ei ystyriaeth.

"Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, y ceisiadau, y cynlluniau a'r astudiaeth dichonoldeb, yn amodol ar gytundeb, mae'r Awdurdod yn cymeradwyo'r penderfyniad i adleoli pencadlys S4C i Gaerfyrddin ar yr amod bod yna ddim newid materol i gynlluniau ac amodau adleoli Cais Caerfyrddin."

Cymeradwywyd yr argymhelliad gan fwyafrif o'r Aelodau.

### **6. Camau nesaf**

Penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfleu penderfyniadau'r Awdurdod i gynrychiolwyr Caerfyrddin a Chaernarfon yn syth ar ôl y cyfarfod, ac y dylai'r Prif Weithredwr gyflwyno'r penderfyniadau i Gyfarwyddwr y BBC yng Nghymru.

Nodwyd y byddai sesiynau adborth ffurfiol ar gyfer y ddwy ardal yn cael eu trefnu'n fuan. Bydd cynhadledd i'r wasg yn cael ei drefnu ar gyfer y prynhawn.

Bwriedid cynnal cyfarfod cychwynnol ar gyfer staff y prynhawn hwnnw, gyda chyfarfodydd adrannol wythnos nesaf a byddai grŵp staff yn cael ei sefydlu yn fuan.

**7. Geiriau i gloi**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a swyddogion am eu gwaith a'u cyfraniadau i'r drafodaeth dros gyfnod o bron i wythnos gyfan ers cyflwyniadau'r ardaloedd ar ddydd Llun a Mawrth ac am drafodaethau'r Awdurdod a ddilynodd.

Pwysleisiodd y Cadeirydd ei fod yn gwerthfawrogi fod penderfyniadau'r Awdurdod wedi bod yn rhai pwysig iawn ond hefyd yn anodd, a nododd ei ddiolch i bob Aelod o'r Awdurdod a'r swyddogion am eu gwaith a'u cefnogaeth i waith yr Awdurdod yn ystod yr wythnos.

**8. Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod busnes nesaf ar ddydd Iau 10fed Ebrill 2014.